**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Meirick Davies gysylltiad personol yn Eitem 6 ar y Rhaglen: Cyllideb 2016/17 oherwydd ei fod yn Gadeirydd ar yr Awdurdod Tân. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2016-19 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl Lleol ar gyfer 2016 – 2019 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Chwefror 2016.* |
| **6** | CYLLIDEB 2016/17 (CYNIGION TERFYNOL - CAM 6) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ac nad oes angen unrhyw arbedion pellach oni bai am y £5.2m sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan wasanaethau ar gyfer 2016/17,*<br><br>*(b) cefnogi'r cynigion canlynol ac yn unol â hynny yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn cwblhau cyllideb 2016/17:*<br><br>*1. cynyddu cyllid i ysgolion i fodloni'r lefel ddiogelu genedlaethol o +1.85%.*<br>*2. neilltuo cyllideb wrth gefn un flwyddyn o £480k ar gyfer 2016/17 er mwyn lliniaru'r risgiau i gyflawni'r gyllideb a nodir yn yr adroddiad*<br>*3. argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog o ganlyniad yn Nhreth y Cyngor o 1.5%.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |